

At: Aelodau'r Pwyllgor Archwilio
Cymunedau

Dyddiad: 20 Ebrill, 2015

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 23 EBRILL 2015** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 3 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2015 (copi ynghlwm).

5 RHESYMOLI LLWYBRAU GRAEANU RHAGOFALUS (Tudalennau 15 - 54)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Rhwydwaith a Phennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (copi ynghlwm) yn ceisio ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor ar newidiadau i'r llwybrau sydd wedi'u datblygu gyda'r bwriad o leihau costau graeanu rhagofalus.

EGWYL GYSUR

6 RHEOLEIDDIO MEYSYDD CARAFANNAU YN WELL (Tudalennau 55 - 64)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Datblygu (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) (copi ynghlwm) ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran datblygu strategaeth meysydd carafannau ar gyfer y Sir, a'i orfodi'n effeithiol trwy drafod â pherchnogion meysydd carafannau.

7 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO (Tudalennau 65 - 82)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen waith y pwyllgor a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol.

8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau Cyngor

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts
(Cadeirydd)

Y Cynghorydd Win Mullen-James (Is-
Gadeirydd)

Peter Arnold Evans
Carys Guy
Rhys Hughes
Bob Murray

Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl, Dydd Iau, 12 Mawrth 2015 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Peter Arnold Evans, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Win Mullen-James (Is-Gadeirydd), Bob Murray a/ac Cefyn Williams.

Aelodau Cyfetholedig: - D. Houghton, Dr D. Marjoram a G. Williams.

Mynychodd yr Aelodau Arweiniol, y Cynghorwyr H.H. Evans, D. I. Smith ac E. W. Williams gais y Pwyllgor.

Mynychodd y Cynghorwyr S. A. Davies, R. L. Feeley, M. L. Holland, H. Ll. Jones, G. M. Kensler fel arsylwyr.

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth y Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol (SP), Pennaeth Addysg (KE), Uwch Beiriannydd, Rheoli Risg Llifogydd (WH), Cydlynnydd Archwilio (RE) a Swyddog Gweinyddol (CW).

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) James Davies, Gill Greenland, Carys Guy, Rhys Hughes, Joe Welch a/ac Cheryl Williams.

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd H. Hilditch-Roberts gysylltiad personol gydag eitem 5 ar y Rhaglen "Categoriâu Iaith Holl Ysgolion Sir Ddinbych" oherwydd bod ei bartner yn gweithio i'r Cyngor, a datganodd y Cynghorydd Martyn Holland gysylltiad personol gydag eitem 5 ar y Rhaglen, "Categoriâu Iaith Holl Ysgolion Sir Ddinbych" oherwydd ei fod yn Llywodraethwr Ysgol.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ddydd Iau, 29 Ionawr 2015.

Materion yn codi:-

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyngorydd W.M. Mullen-James, cytunodd y Cydlynnydd Archwilio i gysylltu â Phennaeth y Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol ynghylch a ystyriwyd y posibilrwydd o gynnig gostyngiad am gasglu gwastraff gwyrdd ar gyfer dinasyddion hŷn fel rhan o'r broses o osod y gyllideb.

PENDERFYNWYD – yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

5 CATEGORïAU IAITH HOLL YSGOLION SIR DDINBYCH

Dosbarthwyd adroddiad gan y Pennaeth Addysg a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried canfyddiadau arolwg Grŵp Strategol y Gymraeg mewn Addysg o categorïau iaith ysgolion y Sir, gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Ar 30 Medi 2014 penderfynodd y Cabinet ofyn i'r Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg adolygu categori iaith pob ysgol yn ystod tymor yr hydref a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ar ddechrau gwanwyn 2015.

Rhoddodd y Pennaeth Addysg grynodedb o gyd-destun a meini prawf categoreiddio, sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad, a rhoddodd amlinelliad o gatedoreiddio a chanlyniadau'r holiadur yn Atodiad 2 hefyd. Roedd dadansoddiad o ymatebion wedi'i gynnwys yn Atodiad 3 ac roedd yr ymatebion wedi'u gwirio yn erbyn canlyniadau addysgol presennol.

Dywedodd y Pennaeth Addysg a'r Aelod Arweiniol Addysg wrth yr Aelodau:-

- roedd dogfen Llywodraeth Cymru (LIC) 'Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (2007)' yn ganllaw a oedd yn nodi disgrifiadau a chategorïau ysgolion yn ôl faint o Gymraeg sy'n cael ei defnyddio wrth addysgu a dysgu; ac yn y gwaith o redeg ysgolion o ddydd i ddydd. Defnyddiwyd y canllawiau hyn, nad oedd ag unrhyw sail mewn deddfwriaeth, gan awdurdodau addysg ledled Cymru wrth ddatblygu gwybodaeth i rieni am gyfrwng iaith eu hysgolion;

- mewn ymateb i benderfyniad y Cabinet ym mis Medi 2014 roedd y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi cynnal adolygiad o holl ysgolion y sir, cynradd ac uwchradd (ar wahân i'r ysgolion arbennig), er mwyn asesu a oedd pob ysgol yn darparu eu cwricwlwm o fewn y meini prawf diffiniedig ar gyfer eu categori presennol;

- roedd canlyniadau'r asesiad hwn wedi nodi anghysondebau rhwng y categori iaith presennol a'r cyfrwng o ddarparu'r cwricwlwm mewn pedair o ysgolion y Sir - 3 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd. Tra'r oedd un o'r ysgolion cynradd yn ysgol dwy ffrwd (Categori 2), nid oedd yr un o'i disgyblion wedi'u hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd diweddar, ond roedd disgwyl i ddau gael eu hasesu

drwy gyfrwng y Gymraeg eleni. Roedd ysgol gynradd arall, a oedd yn darparu ei chwricwlwm yn Saesneg yn bennaf, ond gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg (Categori 4), wedi nodi ei bod yn ysgol dwy ffrwd â digon o gapasiti i ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mewn gwirionedd roedd rhai disgyblion wedi eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd diweddar. Roedd y drydedd ysgol gynradd wedi cydnabod nad oedd ganddi gapasiti digonol mwyach i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i ganiatáu iddi barhau â'i statws Categori 4 presennol. Dylai felly fod yn ysgol Categori 5 (cyfrwng Saesneg). O'r ddwy ysgol uwchradd ddwyieithog yn y sir, sydd ar hyn o bryd a statws Categori 2B – darparu o leiaf 80% o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, roedd un wedi nodi y dylai bellach mae'n debyg fod yng Nghategori 2C - rhwng 50% a 79% o'i chwricwlwm yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg;

- yn y 7 mlynedd diwethaf roedd y Sir wedi cofnodi cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 17% i 23%, roedd hyn yn galonogol. Fodd bynnag roedd ffordd hir i fynd eto os oedd y Cyngor i wireddu ei uchelgais tymor hir o weld holl blant a phobl ifanc y sir yn gwbl hyderus a chymwys yn y Gymraeg ac yn Saesneg pan fyddant yn gadael yr ysgol:

- roedd gan y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Llywodraethwyr Ysgol rôl bwysig i'w chwarae wrth fonitro a chefnogi ysgolion i fodloni a darparu'r chwricwlwm yn unol â'i chategori iaith, a phe bai ysgol yn penderfynu na allai ddarparu yn unol â'i chategori presennol mwyach, byddai'r rhaid dilyn proses statudol er mwyn newid categori'r ysgol.

Nodwyd y pwyntiau canlynol gan yr Aelodau:-

- er bod categoreiddio iaith ysgolion yn bwnc cymhleth, roedd angen archwilio'r anghysonderau ym mhob un o'r pedair ysgol yn fanylach er mwyn ennill gwell dealltwriaeth o'r ffactorau cyfrannol a oedd wedi arwain at yr anghysonderau a nodi unrhyw gefnogaeth a allai fod ar gael iddynt;

- byddai hefyd yn ddefnyddiol i archwilio'n fanwl y cynnydd a wnaed gan bob ysgol ar hyd y continwmm iaith, yn enwedig yr ysgolion hynny a nodwyd eisoes o dan y Rhaglen Moderneiddio Addysg fel rhai a oedd eisiau cynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg;

- dylid archwilio'r holl gynlluniau gweithredu ad-drefnu ysgolion er mwyn sicrhau bod y camau a nodwyd mewn perthynas â chategoreiddio iaith, gan gynnwys y cymorth angenrheidiol sy'n ofynnol i helpu'r ysgolion gyda darparu addysg drwy gyfrwng yr iaith benodedig, wedi eu gweithredu a'u cwblhau;

- byddai'n ddefnyddiol at ddiben cynnal yr ymarfer uchod i gael dau neu dri o aelodau'r Pwyllgor Archwilio i wasanaethu ar y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mynegodd Dr D Marjoram ei ddiddordeb mewn bod yn aelod o'r Grŵp at y diben hwn.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

PENDERFYNWYD – *fod y Pwyllgor, yn amodol ar y sylwadau uchod yn: -*

- (a) nodi canfyddiadau'r adolygiad o ddarpariaeth addysg ysgolion y Sir mewn perthynas â'u categori iaith,
- (b) argymhell bod y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cynnal adolygiad pellach i ganfod y rhesymau am yr anghysondebau yn y pedair ysgol a nodwyd yn yr adroddiad, gan nodi unrhyw gymorth a allai fod ar gael iddynt i'w cefnogi wrth fynd ymlaen,
- (c) gofyn bod y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg hefyd yn archwilio'r cynnydd a wnaed gan bob ysgol yn y sir ar hyd y continwwm iaith, yn enwedig yr ysgolion hynny a nodwyd o dan y Rhaglen Moderneiddio Addysg fel rhai a oedd eisiau cynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a
- (d) gofyn bod cais yn cael ei wneud i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio benodi dau neu dri Aelod o'r Pwyllgor Archwilio i wasanaethu ar y Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg at ddiben yr adolygiad pellach hwn.

6 ASESIAID O AMDDIFFYNFEYDD ARFORDIROL Y RHYL

Dosbarthwyd copi o adroddiad ar y cyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol a'r Uwch Beiriannydd a oedd yn cyflwyno adroddiad drafft i'r Aelodau ar yr Asesiad o Amddiffynfeydd Arfordirol y Rhyl, a gomisiynwyd gan y Cyngor ar ôl llifogydd arfordirol fis Rhagfyr 2013, gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd y Pwyllgor wedi ystyried Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol Sir Ddinbych ym mis Rhagfyr, 2014 ac roedd wedi mynegi dymuniad i weld yr Asesiad o Amddiffynfeydd Arfordirol y Rhyl; i ddeall ymatebion Llywodraeth Cymru (LIC) a Chyfoeth Naturiol Cymru iddo, ac i ystyried y goblygiadau o ran unrhyw waith a allai fod yn ofynnol, a ffynonellau ariannu posibl sydd ar gael.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Prifffyrdd ac Amgylcheddol yr adroddiad sy'n amlinellu natur yr Asesiad o Amddiffynfeydd Arfordirol y Rhyl, y prif gasgliadau, trafodaethau dilynol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, cyfraddau llifogydd eiddo, cynlluniau i liniaru risg a manylion ariannu.

Cyfeiriodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus a Phennaeth y Gwasanaeth Prifffyrdd ac Amgylcheddol at yr adroddiad ac adroddiad yr ymgynghorydd ar yr Asesiad o Amddiffynfeydd Arfordirol y Rhyl, gan bwysleisio mai adroddiad technegol iawn ei natur oedd yr adroddiad. Roedd yr adroddiad wedi'i gomisiynu yn sgil y digwyddiad llifogydd arfordirol ym mis Rhagfyr, 2013 i asesu'r llifogydd tebygol o'r môr a achosir gan ddigwyddiad 1 mewn 200 mlynedd a pha mor debygol yw y bydd ddigwyddiad tywydd mor ddifrifol yn digwydd eto. Eglurwyd y gallai darlleniad cyntaf o adroddiad yr ymgynghorydd beri pryder, fodd bynnag, roedd ei asesiadau wedi bod yn seiliedig ar gyfuniad o ddigwyddiadau tywydd, morol a seryddol i gyd yn digwydd ar yr un pryd, a fyddai'n ddigwyddiad prin iawn.

Wrth ymateb i gwestiynau Aelodau, gwnaeth swyddogion:-

- egluro'r gwaith lliniaru llifogydd a'r gwaith amddiffyn yr arfordir a wnaed hyd yma ers digwyddiad llifogydd 2013 a'r gwaith arfaethedig a fydd yn cychwyn cyn diwedd y flwyddyn galendr hon, roedd pob un wedi cael croeso da gan breswylwyr lleol.

Byddai'r holl waith hyn yn lleihau'r proffil risg ar gyfer llifogydd arfordirol difrifol yn yr ardal, serch hynny, ni ellid byth ddileu'r risg yn llwyr;

- darparu trosolwg o sut y byddai'r cynllun arfaethedig yn gweithio, a byddai'r cwrs golff yn cael ei ddefnyddio fel safle i gronni dŵr llifogydd yn ystod adegau o lifogydd difrifol. Pwysleisiwyd bod y cynllun wedi ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r Clwb Golff ac am y rhesymau pam y byddai angen i ddŵr gael ei gronni yno yn ystod argyfwng, ni ddylai fod unrhyw atebolrwydd gan y Clwb ar gyfer iawndal am ddifrod i'r grin yn ystod digwyddiad tywydd anarferol;
- egluro, os caiff ei adeiladu, byddai Morlyn Ynni'r Llanw Gogledd Cymru arfaethedig, yn lleihau'r risg ymhellach o ddŵr môr yn torri dros yr amddiffynfeydd arfordirol gan y byddai'n lleihau maint a phŵer y tonnau sy'n taro'r draethlin. Fodd bynnag, ni fyddai'n cael ei adeiladu yn y dyfodol agos felly roedd rhaid cymryd mesurau eraill i leihau'r risg o'r môr ar gyfer y tymor byr i dymor canolig;
- egluro'r cynlluniau ariannu amrywiol sydd ar gael i'r Cyngor i ariannu gwaith ymateb i lifogydd mewn argyfwng a gwaith lliniaru yn y gorffennol;
- amlinellu'r gwaith a wnaed i gynghori preswylwyr ar sut i ddiogelu eu heiddo os ceir llifogydd ar raddfa fach ac i roi sicrwydd iddynt o'r gwaith sydd ar y gweill i leihau perygl o lifogydd mawr yn y dyfodol;
- cadarnhau bod Wardeiniaid Llifogydd eisoes ar waith yn ardal y Rhyl ond bod angen gwneud mwy o waith gyda hwy i'w cynorthwyo i godi ymwybyddiaeth preswylwyr o beth i'w wneud mewn llifogydd;
- gwirio bod y Cyngor hefyd yn gweithio gyda chwmnïau yswiriant ac ati i egluro'r perygl tebygol o lifogydd yn yr ardal ac felly helpu preswylwyr i gael yswiriant cartref a chynnwys fforddiadwy;

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd awgrymodd Aelodau y gallai fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol pe gwnaed mwy o ddefnydd o'r cyfryngau/cyfryngau cymdeithasol ar gyfer rhybuddio pobl o lifogydd sydd ar fin digwydd. Teimlwyd hefyd y byddai'n werth chweil cyfathrebu, ar y cyd â budd-ddeiliaid eraill, neges gadarnhaol i'r preswylwyr sy'n amlygu fel yr oedd y Cyngor yn buddsoddi'n drwm mewn mesurau lliniaru llifogydd mewn cyfnod o gyni mewn ymgais i ddiogelu pobl ddiamddiffyn ac amlygu'r gwaith partneriaeth da a oedd yn digwydd rhwng yr holl fudd-ddeiliaid i gyflawni'r gwaith hwn.

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor yn:-

- (a) derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad,
- (b) nodi, er mwyn eglurder, nad oedd yr amleddau gorlifo a ddyfynnir yn yr adroddiad yn gyfystyr â'r ffigurau "amlder llifogydd eiddo", a ddefnyddir fel arfer yn asesiadau Llywodraeth Cymru o risg, a
- (c) cymeradwyo datblygiad y cynlluniau lliniaru risg llifogydd sydd yn cael eu datblygu gan y Cyngor Sir ar hyn o bryd.

7 CAEL GWARED AR ARWYDDION HEB EU HAWDURDODI ODDI AR DIR PRIFFYRDD

Dosbarthwyd copi o adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol ar safbwynt polisi'r Cyngor mewn perthynas â symud arwyddion heb eu hawdurdodi o dir priffyrdd, a sut yr oedd y polisi yn cael ei weithredu, gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd mater arwyddion heb eu hawdurdodi wedi'i drafod gan y Pwyllgor ar 9 Medi, 2014, ac roedd manylion y canlyniad wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Roedd y canllawiau diweddaraf i swyddogion wedi'u cynnwys fel Atodiad 1, ac roedd y Cyngor yn gwahaniaethu rhwng arwyddion masnachol, ac arwyddion digwyddiadau anfasnachol/cymunedol. Roedd Atodiad 2 yn rhoi rhestr o enghreifftiau, er mwyn dangos sut mae'r gwahaniaeth wedi ei ddehongli yn ymarferol. Oherwydd bod y polisi'n cyfeirio'n benodol at fathau o arwyddion heb eu hawdurdodi a fyddai'n cael eu goddef, teimlwyd y byddai'n anghywir i gyfeirio at hyn fel polisi "dim goddefgarwch". Roedd Atodiad 3 yn darparu ffotograffau o enghreifftiau i gynorthwyo Aelodau.

Wrth gyflwyno'r adroddiad pwysleisiodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus yr angen am waith partneriaeth effeithiol rhwng nifer o adrannau'r Cyngor er mwyn sicrhau triniaeth deg a chyfartal ar gyfer busnesau lleol, i helpu grwpiau cymunedol, a sicrhau diogelwch preswylwyr wrth ymdrin ag arwyddion heb eu hawdurdodi ar dir priffyrdd.

Mynegodd Aelodau'r safbwyntiau a'r farn ganlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd:-

- roedd y polisi wedi gweithio'n dda ym Mhrestatyn, lle'r oedd y broblem fwy neu lai wedi ei dileu. Roedd astudiaeth ddichonoldeb wedi'i chomisiynu yn ddiweddar gan Gyngor Tref Prestatyn i archwilio a fyddai'n ymarferol i gynnig gofod hysbysebu i fusnesau ar fyrddau a gaiff eu codi mewn arosfannau bws sy'n eiddo i'r Cyngor Tref, a byddai ffi yn cael ei chodi;

- bu pryderon mewn trefi eraill am weithredu'r polisi, yn arbennig y diffyg canfyddedig o ran dull cyson o'i weithredu, ac roedd angen diffiniad clir o'r gwahanol gategoriâu o ddigwyddiadau e.e. digwyddiadau cymunedol;

- mewn achosion syml, gellid gweithredu'r polisi yn uniongyrchol gan swyddogion. Fodd bynnag, mewn achosion lle'r oedd anawsterau yn debygol o ddigwydd, dylid rhoi cyfle i'r aelod lleol gysylltu â threfnydd y digwyddiad neu'r busnes ynglŷn â'r arwyddion. Dylid gwneud hyn mor gynnar â phosibl yn y broses.

- oni bai yr amharwyd ar ddiogelwch priffyrdd, cam cyntaf y broses fyddai cysylltu â pherchnogion yr arwyddion a/neu drefnwyr y digwyddiad, er mwyn ceisio datrys y sefyllfa. Os nad oedd modd datrys y sefyllfa, dylid rhoi gwybod i'r aelod lleol ar unwaith;

- byddai'n ddefnyddiol i arwyddion gwybodaeth i dwristiaid gael eu cynnwys ar arwyddion ffyrdd presennol h.y. arwyddluniau i ddynodi'r cyfleusterau sydd ar gael mewn pentref/tref, ac

- i ganfyddiadau gwaith gweithgor y Gwasanaethau Cynllunio, Datblygu Economaidd a Phriffyrdd gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio maes o law i sicrhau ei fod yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor ac yn cyflawni ei Gynllun Corfforaethol.

Nododd yr Arweinydd ei bryderon ynghylch yr angen i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng hawliau a dyletswyddau'r Cyngor o ran camau gorfodi diogelwch priffyrdd a'i rôl datblygu economaidd. Roedd angen i'r Cyngor gael ei weld yn meithrin a chefnogi busnes yn y Sir.

Wrth ymateb i gwestiynau Aelodau gwnaeth y Pennaeth Gwasanaeth a'r Aelod Arweiniol:-

- bwysleisio y byddai swyddogion o'u gwirfodd yn dilyn pa bynnag bolisi yr oedd aelodau yn tybio oedd yn briodol mewn perthynas â'r broblem hon, cyn belled nad oedd yn peryglu diogelwch defnyddwyr y priffyrdd;

- pwysleisio nad yw'r polisi yn bolisi dim goddefgarwch, roedd wedi ei lunio mewn ymateb i bryderon yr aelodau o ran gormodedd o arwyddion heb eu hawdurdodi ar draws y Sir, cyfeiriwyd yn benodol mewn cyfarfod blaenorol at y briffordd drwy Lôn Parcwr, Rhuthun;

- tynnu sylw'r Aelodau at y diffiniad o ddigwyddiadau cymunedol, digwyddiadau elusennol ac ati fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad;

- egluro'r gwahaniaethau rhwng camau gorfodi priffyrdd cyhoeddus a chyfreithiau cynllunio;

- cydnabod bod camgymeriadau wedi'u gwneud yn 2014 pan oedd arwyddion yn hysbysebu digwyddiadau cymunedol a oedd eisoes wedi'u cynnwys yn Strategaeth Ddigwyddiadau'r Sir, wedi'u tynnu i lawr fel rhan o weithredu'r polisi hwn. Roddwyd sicrwydd na fyddai hyn yn digwydd eto eleni gan fod canllawiau wedi'u rhoi i swyddogion bellach a diffiniadau ar y mathau hyn o ddigwyddiadau. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai Aelodau ofyn i drefnwyr digwyddiad gysylltu â'r Gwasanaeth Priffyrdd i roi cyngor iddynt o ran pryd a lle'r oedd arwyddion hyrwyddo ar gyfer digwyddiadau cymunedol yn mynd i gael eu codi, a gallai'r gwasanaeth wedyn roi cyngor ar addasrwydd y lleoliad ar sail diogelwch;

- roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol wedi comisiynu darn o waith i edrych ar sut y gallai'r Gwasanaeth Priffyrdd, Datblygu Economaidd a Busnes, a'r Gwasanaeth Cynllunio weithio'n well gyda'i gilydd er mwyn datblygu'r economi leol, sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gorfodi a gweithgarwch cymorth busnes, a chefnogi busnesau lleol. Byddai rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys llunio 'pecyn croeso' ar gyfer busnesau newydd a fyddai'n egluro beth y gallent ei wneud a'r hyn na allent ei wneud o ran hysbysebu eu busnesau. Hyd nes y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau, byddai'r polisi presennol yn

berthnasol, ond byddai swyddogion yn cael eu cynghori i ystyried y diffiniad o amrywiol fathau o ddigwyddiadau fel yn Atodiad 2 i'r adroddiad;

- cadarnhawyd bod byrddau 'A' yn cael eu caniatáu y tu allan i fusnesau cyn belled â bod digon o le i sicrhau diogelwch cerddwyr.

Ar ddiwedd y drafodaeth pwysleisiodd y Pwyllgor fod angen dull gweithredu synnwyr cyffredin o ran gweithredu'r polisi, gydag Aelodau lleol yn cael gwybod am unrhyw broblemau o fewn eu hardaloedd cyn gynted ag y byddant yn dod i'r amlwg. Roedd angen i bobl fusnes a grwpiau cymunedol gael eu hymgysylltu ac ymwneud â'r broses yn gynnar mewn ymgais i'w cefnogi i gyflawni eu dyheadau a'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol datblygu economaidd a strydoedd glân a thaclus, wrth gynnal ei ddyletswyddau diogelwch cymunedol hefyd. Felly:-

PENDERFYNWYD - yn amodol ar y sylwadau uchod -

- (a) cefnogi'r egwyddorion a amlinellir yn y canllawiau, eu defnydd parhaus a datblygu 'pecyn croeso i fusnesau' i gynorthwyo a chefnogi busnesau newydd i sefydlu eu hunain a hyrwyddo eu gwasanaethau o fewn arferion a ganiateir;*
- (b) mynegi cefnogaeth i swyddogion Sir Ddinbych sy'n gorfod gweithredu'r polisi, weithiau o dan amgylchiadau anodd;*
- (c) dylid diwygio'r canllawiau polisi er mwyn cynnwys aelodau lleol yn y broses;*
- (d) cefnogi'r egwyddor o hawlio costau yn ôl gan unrhyw droseddwyr mynych sy'n dewis anwybyddu rhybuddion ysgrifenedig, a/neu unrhyw geisiadau gan aelodau lleol, ac yn parhau i osod arwyddion yn anghyfreithlon;*
- (e) cefnogi'r cynlluniau unigol sy'n cael eu datblygu mewn perthynas ag arwyddion a hysbysebion a awdurdodwyd yn briodol, yn enwedig arwyddion twristiaeth ac arwyddion cymdogaeth (mewn ardaloedd lle mae nifer o fusnesau'n cydfodoli); a*
- (f) gofyn bod canfyddiadau gwaith gweithgor y Gwasanaethau Priffyrdd, Datblygu Economaidd a Chynllunio yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio pan fydd wedi'i gwblhau i sicrhau ei fod yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor ac yn cyflawni ei Gynllun Corfforaethol;*

8 AILSTRWYTHURO'R GWASANAETH DATBLYGU ECONOMAIDD A BUSNES

Dosbarthwyd copi o adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (CCUECh) gyda phapurau'r cyfarfod. Roedd yn nodi cyd-destun a nodau'r adolygiad o swyddogaeth Datblygu Economaidd a Busnes y Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn egluro sut y byddai'r adolygiad yn cefnogi blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer datblygu'r economi leol a'r weledigaeth a nodwyd yn y Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol. Roedd y cyngor yn wynebu targed lleihau'r gyllideb o £17miliwn dros y 2 flynedd nesaf gyda chyfanswm arbedion o £11miliwn wedi'u nodi, gan adael balans o £6miliwn ac nid oedd llawer o obaith o setliadau ariannol gwell yn y dyfodol rhagweladwy. Roedd y gostyngiadau presennol yn y gyllideb ar ben toriadau o dros £20 miliwn sydd wedi'u gwneud ers 2009, ac roedd graddfa'r her yn golygu bod gwasanaethau'r Cyngor yn wynebu newidiadau sylweddol. Cynhaliwyd yr adolygiad o swyddogaeth Datblygu

Economaidd a Busnes y Cyngor yn y cyd-destun hwn ac roedd yr egwyddorion a ddefnyddiwyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Wrth gyflwyno'r adroddiad ar ailstrwythuro'r Gwasanaeth, roedd yr Arweinydd a'r CCUECh yn pwysleisio bod y Cyngor wedi datblygu Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol iawn ac wedi gosod targedau heriol iawn iddo'i hun yn ei Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol, roedd rhai i'w cyflawni erbyn 2017. Yn y misoedd diwethaf roedd y Cyngor wedi rhoi addewid y byddai'n ymdrechu i gyflawni'r Cynllun a'r Strategaeth er gwaethaf wynebu toriadau digynsail i'w gyllideb ar gyfer y dyfodol rhagweladwy. O ganlyniad i'r toriadau ariannol difrifol hyn roedd rhaid i wasanaethau gael eu teilwra i gyflawni'r canlyniadau disgwylidig yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon, a dyna'r rheswm dros ailstrwythuro'r Gwasanaeth Datblygu Economaidd a Busnes. Rhoddodd yr arweinydd a'r CCUECh sicrwydd i Aelodau fod y strwythur rheoli a darparu traws-sirol newydd wedi'i hanelu at gyflawni'r tri phrif darged yng Nghynllun Cyflawni'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol - mwy o bobl mewn gwaith, incwm aelwydydd uwch a rhagor o fusnesau lleol iachach. Amlinellwyd rolau'r swyddi o fewn y strwythur, ynghyd â'r swydd ychwanegol yn y Gwasanaeth Gwella a Moderneiddio Busnes. Wrth ymateb i gwestiynau aelodau, gwnaeth y CCUECh a'r Arweinydd gadarnhau:-

- nad oedd cyfrifoldeb am gyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol yn ymwneud â datblygu economaidd a'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn gyfrifoldeb i'r Gwasanaeth Datblygu Economaidd a Busnes yn unig, roedd gan holl wasanaethau'r Cyngor fudd ynddynt a rôl i'w chwarae wrth eu cyflawni;
- Byddai Cynlluniau Tref ac Ardal yn dod yn Gynlluniau cyflenwi â chanolbwynt yn y dyfodol. Byddai rôl Cefnogwr y dref yn cael ei hadolygu er mwyn ei gryfhau a byddai camau gweithredu neu agweddau ar Gynlluniau Tref ac Ardal yn cael eu neilltuo i Benaethiaid Gwasanaeth i'w cyflawni o fewn terfynau amser penodol. Byddent yn atebol am gyflawni'r prosiectau hyn gan y byddent yn rhan o'u Cynlluniau Gwasanaeth;
- ymgynghorwyd â Chefnogwyr Tref a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol ar y cynigion ailstrwythuro;
- roedd rhai agweddau o'r flaenoriaeth gorfforaethol datblygu economaidd yn cael eu datblygu ar wahanol lefelau e.e. roedd datblygu sgiliau addysgol/cyflogwr, trydaneiddio rhwydwaith rheilffordd Gogledd Cymru, hyrwyddo'r rhanbarth fel ardal ar gyfer busnes yn cael eu datblygu'n rhanbarthol drwy gyfrwng Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, tra'r oedd agweddau eraill mwy lleol megis hybu Sir Ddinbych fel lleoliad da ar gyfer busnes yn digwydd ar lefel Sir;
- nid oedd LIC bob amser yn cymryd sylw o gyngor awdurdodau lleol neu gyrrff rhanbarthol ar beth fyddai'n cyflawni'r canlyniadau economaidd gorau ar gyfer yr ardal. Ar adegau roedd hyn yn dwysáu ymdrechion awdurdodau lleol i ysgogi datblygu economaidd, felly roedd rhaid i awdurdodau lleol fod yn greadigol ac yn arloesol yn eu dull gweithredu;
- byddai cyllid Ewropeaidd yn cael ei weinyddu yn y dyfodol ar sail ranbarthol, Gogledd Cymru. Roedd cadarnhad yn dal i gael ei ddisgwyl ar lle y byddai'r tîm

cyllid Ewropeaidd yn cael ei leoli ac ar pryd fyddai ariannu cymunedol o brosiectau seilwaith mawr fel ffermydd gwynt ar gael. Gan nad oedd y Cyngor bellach mewn sefyllfa lle gallai gyflogi staff tan i ffrydiau ariannu gael eu cadarnhau neu fod ar gael roedd rhaid iddo weithio gyda'r hyn a oedd ar gael iddo ar hyn o bryd, o ganlyniad, roedd y Gwasanaeth wedi'i ailstrwythuro, ar sail yr hyn sydd ar gael ar hyn o bryd a beth fydd ar gael yn y dyfodol;

- roedd adroddiad ar wahân ar ariannu cymunedol posibl yn y dyfodol, gan gynnwys arian fferm wynt ac arian Ewropeaidd, i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar 19 Mawrth 2015. Er byddai'r gwaith o weinyddu cyllid Ewropeaidd yn symud i sail ranbarthol ni ragwelir y byddai Sir Ddinbych ar eu colled o ran unrhyw arian gan mai hwn oedd un o'r meysydd a nodwyd i elwa o Gronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer y cyfnod 2014-2020. Fodd bynnag, byddai angen i'r Cyngor a'r cymunedau wrth symud ymlaen, fireinio eu harferion, a gweithio'n agosach gyda'i gilydd, wrth ddatblygu prosiectau er mwyn cynyddu'r buddion o'r cronfeydd sydd ar gael;

- roedd ailstrwythuro'r gwasanaeth ar y gweill a dylid ei gwblhau erbyn mis Mai, 2015. Nid oedd lleihau nifer y swyddi mewn unrhyw ffordd yn adlewyrchiad andwyol ar alluoedd deiliaid swyddi presennol. Sail ei sefydlu oedd y cysyniad 'digon da' o fewn modd ariannol i hwyluso cyflawni gweledigaeth y Cyngor a'r canlyniadau a fwriedir;

Mynegodd Aelodau'r safbwyntiau a'r farn ganlynol:-

- wrth gefnogi nodau'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol gwnaethant holi a oedd y Cyngor yn gosod targedau a oedd yn rhy uchelgeisiol iddo'i hun, yn enwedig o ran y seilwaith digidol, fel y cyfryw nid oedd materion o fewn rheolaeth y Cyngor;

- wrth gydnabod bod strwythur rheoli'r Gwasanaeth yn benderfyniad gweithredol, mynegwyd amheuan am gyflymder y broses a graddau'r toriadau staffio, ac a oedd y strwythur llywodraethu yn iawn;

- pwysleisiwyd er bod llawer o weithgarwch wedi digwydd yn ystod y tair blynedd diwethaf, roedd nifer y prosiectau a gyflawnwyd hyd yma yn ymddangos yn isel. Felly, wrth fynd ymlaen, roedd angen llawer mwy o bwyslais ar sicrhau canlyniadau diriaethol, a byddai pob un ohonynt angen tystiolaeth;

- codwyd pryderon ynghylch rhanbartholi cynyddrannol canfyddedig gweinyddiaeth, llywodraethu ac ariannu materion datblygu economaidd a'r effaith bosibl ar ddatblygu economaidd yn lleol;

- holwyd a fyddai gan y strwythur newydd adnoddau digonol i gyflawni'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol yn effeithiol a'r flaenoriaeth gorfforaethol i safon 'ddigon da';

- pwysleisiwyd yr angen i gryfhau rôl y cefnogwyr tref mewn perthynas â chyflawni'r cynlluniau tref ac ardal;

- nodwyd pryderon o ran a oedd y Cyngor yn gwireddu elw ar fuddsoddiad o'r holl sefydliadau datblygu economaidd rhanbarthol yr oedd yn gysylltiedig â hwy, ac a oedd yr holl ddatblygiadau mawr yn y rhanbarth, er eu bod yn cael eu marchnata fel cyfleoedd/prosiectau ar gyfer Cymru, mewn gwirionedd yn ddim mwy na phrosiectau yng Nghymru gyda'r mwyafrif o'r staff yn trosglwyddo i mewn o'r tu allan i'r rhanbarth.

Cadarnhawyd y byddai effaith ailstrwythuro'r Gwasanaeth o ran cyflawni canlyniadau yn cael ei fesur gan y Grŵp Tasg a Gorffen 'Torri'r Brethyn' drwy ei waith ar effaith y toriadau yn y gyllideb ar y gallu i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

Yn dilyn trafodaeth fanwl:-

PENDERFYNWYD – yn amodol ar y sylwadau uchod, cefnogi'r rhesymeg dros yr adolygiad o swyddogaeth Datblygu Economaidd a Busnes y Cyngor a'r canlyniadau y disgwylir a fydd yn deillio o'r adolygiad.

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL ARCHWILIO

Roedd copi o adroddiad gan y Cydlynnydd Archwilio, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen gwaith i'r dyfodol ac oedd yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd R.M. Murray, amlinellodd y Cydlynnydd Archwilio y broses i'w dilyn pe bai Aelodau yn dymuno gwahodd Comisiynydd yr Heddlu i fynychu Cyfarfod, a chadarnhaodd y byddai cymorth i lenwi ffurflenni ar gael pe bai angen.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'w Raglen Gwaith i'r Dyfodol drafft ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol, Atodiad 1, a chytunwyd y byddai'r Aelod Arweiniol, y Cynghorydd D. I. Smith, yn cael ei wahodd i fynychu'r cyfarfod ar 23 Ebrill, 2015 i ystyried y ddwy eitem fusnes.

Cyfarfu'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio (CGIGA) ar 19 Chwefror a phenodwyd cynrychiolwyr i wasanaethu ar y Grŵp Tasg a Gorffen Traws-Archwilio a sefydlwyd i werthuso effaith y toriadau yn y gyllideb. Cynrychiolwyr y Pwyllgor fyddai'r Cynghorwyr H. Hilditch-Roberts a T.R. Hughes, gyda'r Cynghorwyr W. Mullen-James a J. Welch yn Aelodau dirprwyol. Byddai Aelodau dirprwyol yn cael eu galw i gymryd rhan yng ngwaith y Grŵp wrth iddo symud yn ei flaen.

Roedd y Grŵp wedi trafod y trefniadau ar gyfer adrodd ar waith y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2014/15 i'r Cyngor Blynnyddol ym mis Mai, ac fel rhan o'r broses honno roedd wedi penderfynu cynnal ymarfer gwerthuso o waith y swyddogaeth archwilio. Rhoddwyd holiadur byr i'r holl Aelodau ac Uwch Reolwyr, i'w ddychwelyd erbyn 16 Mawrth, 2015, a oedd gofyn iddynt werthuso effeithiolrwydd gwaith archwilio o'u safbwynt hwy. Byddai crynodeb o'r canfyddiadau yn cael ei adrodd fel rhan o'r eitem ar yr Adroddiad Blynnyddol yng nghyfarfod Blynnyddol y Cyngor ym mis Mai.

Eitem a drafodwyd yn fanwl yn y cyfarfod GCIGA oedd Papur Gwyn diweddar Llywodraeth Cymru, Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni - Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol. Roedd Pennod 8 y Papur Gwyn, 'Atgyfnerthu Rôl Adolygu', yn gosod cynigion LIC ar gyfer archwilio. Byddai barn y GCIGA ar gwestiynau'r ymgynghoriad yn ymwneud â Phennod 8 yn cael ei bwydo i ymateb ymgynghoriad cyffredinol y Cyngor i LIC.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch cynnwys Ffurflenni Datgan Cysylltiad gyda phecynnau agenda, cytunodd y Cydlynnydd Archwilio i gyfleu pryderon Aelodau i'r swyddogion perthnasol.

Cyfeiriodd y Cydlynnydd Archwilio at y Pecyn Gwybodaeth a ddisbarthwyd cyn y cyfarfod a oedd yn cynnwys adroddiad cynnydd ar Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen. Cadarnhaodd hefyd fod y wybodaeth y gofynnwyd amdani am incwm o feysydd parcio hefyd wedi'i dosbarthu i'r Aelodau y bore hwnnw.

PENDERFYNWYD - yn amodol ar y newidiadau a chytundebau uchod, cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Mynychodd y Cynghorydd W.M. Mullen-James gyfarfod Rhianta Corfforaethol ar 11 Mawrth 2015, a darparodd gopi o ddau gyflwyniad a gafwyd yn y cyfarfod i'w dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor. Cyfeiriodd y Cynghorydd Mullen-James at bryderon a godwyd yn ymwneud â darparu llety ar gyfer pobl ifanc.

Mynychodd y Cynghorydd C.H. Williams y Grŵp Tasg a Gorffen Tai Fforddiadwy, byddai eu busnes yn dod i ben yn fuan, a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn y dyfodol agos.

Mynychodd y Cynghorydd H. Hilditch-Roberts y cyfarfod Her Gwasanaeth AD a nododd welliannau sylweddol o ran darparu gwasanaethau, cyfeiriwyd yn benodol at yr effaith a wnaed gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democratiaidd ers ei benodi yn Bennaeth Adnoddau Dynol.

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor yn derbyn ac yn nodi'r adroddiadau uchod.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.20pm.

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Cymunedau
Dyddiad y Cyfarfod:	23 Ebrill 2015
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus/ Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol
Awdur yr Adroddiad:	Rheolwr Rhwydweithiau/ Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol
Teitl:	Rhesymoli Llwybrau Graeanu Rhagofalus (deilliant Rhyddid a Hyblygrwydd)

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn disgrifio sut mae'r Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol yn bwriadu cyflawni'r lleihad mewn pellteroedd graeanu rhagofalus a gymeradwywyd gan yr aelodau fel rhan o broses Rhyddid a Hyblygrwydd y Cyngor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau i fodloni ei hun bod y gostyngiadau gofynnol ym mhellteroedd y llwybrau wedi cael eu datblygu mewn modd rhesymegol, ac y byddant yn cyflawni'r arbedion gofynnol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai'r Pwyllgor ystyried, gwneud sylwadau a chymeradwyo'r newidiadau i'r llwybr sydd wedi cael eu datblygu.

4. Manylion yr Adroddiad

- Mae'n bwysig nodi bod y gostyngiadau arfaethedig yn effeithio ar raeau rhagofalus yn unig. Nid oes unrhyw newidiadau'n cael eu cynnig i'r llwybrau graeanu a fyddai'n cael eu defnyddio mewn amodau eira.
- Pwrpas y graeanu yw cynnal rhwydwaith o lwybrau strategol ar adegau pan fo'r tywydd yn arw, gan gynnwys cysylltiadau i mewn i bentrefi. Fel y rhan fwyaf o awdurdodau, yn draddodiadol mae Sir Ddinbych wedi taenu halen ar bob ffordd dosbarth A a B, ynghyd â chyfran fechan o weddill y rhwydwaith. At ei gilydd, mae'r Cyngor yn trin tua 28% o'r rhwydwaith priffyrdd ar hyn o bryd (ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol).
- Mae pob cylched taenu halen yn cynnwys 9 cerbyd yn gyrru cyfanswm o 850 cilomedr gyda halen yn cael ei daenu ar 570 cilomedr. Mae'r ffigurau hyn yn

cynnwys taenu halen ar Gefnffyrdd, ac mae Llywodraeth Cymru'n talu'n uniongyrchol am hyn, ac mae felly y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn.

- d) Cymhelliad ariannol sydd dros y newid. Fel rhan o'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd, mae'r Cyngor eisoes wedi cymeradwyo gostyngiad arfaethedig o £250,000 yn y gyllideb cynnal priffyrdd (ar gyfer 2015-16). Roedd y ffigwr o £250,000 yn cynnwys gostyngiad arfaethedig o tua £60,000 yn y gwariant ar daenu halen rhagofalus, y mae angen ei gyflwyno'r gaeaf nesaf.
- e) Mae costau graeanu'n cael eu hachosi gan nifer o ffactorau, gan gynnwys; y tywydd, cywirdeb y rhagolygon, canllawiau cenedlaethol, lefel y risg y mae swyddogion yn penderfynu ei dderbyn wrth wneud penderfyniadau, effeithlonrwydd y llwybrau rydym yn eu defnyddio i ddarparu'r gwasanaeth, cost-effeithiolrwydd ein trefniadau fflyd a'n trefniadau staffio ,
- f) Mae rhai o'r ffactorau hyn yn allanol, ond mae'r rhai sydd o dan reolaeth y Cyngor yn cael eu hadolygu a'u diwygio bob blwyddyn, gyda'r nod o gynyddu ein cost effeithiolrwydd. Yna mae'r Cyngor yn cynhyrchu Cynllun Tywydd Garw (a oedd yn arfer cael ei alw'n Gynllun Cynnal a Chadw'r Gaeaf), sy'n nodi pa lwybrau y taenir halen arnynt.
- g) Arweiniodd yr optimeiddio a ddigwyddodd cyn tymor 2014/15 at rai cwynion gan aelodau'r cyhoedd, felly mae'n amlwg iawn y bydd angen cyfleu'r rhesymau dros y newidiadau yn yr adroddiad hwn mewn modd a fydd wedi'i gynllunio a'i gydlynu. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio gwefan y Cyngor, a chyhoeddi/ rhoi cyhoeddusrwydd i Gynllun Tywydd Garw 2015/16. Bydd arwyddion cynghori hefyd yn cael eu harddangos ar y llwybrau yr effeithir arnynt, ar sail asesiad risg.
- h) I gyflawni'r arbedion a bennwyd yn y broses Rhyddid a Hyblygrwydd, amcangyfrifwyd y byddai angen gostyngiad o tua 10% yn y llwybrau (ar ein ffyrdd nad ydynt yn gefnffyrdd). Yn amlwg; mae'r tywydd yn wahanol bob blwyddyn, felly amcangyfrif yw'r ffigwr hwn, yn seiliedig ar flwyddyn gyfartalog. Dan y cynigion hyn; hyd y rhwydwaith na fydd yn parhau i dderbyn graeanu rhagofalus yw 43.9 km. Bydd arbediad o tua £10,000 yn cael ei greu o ran halen a £50,000 mewn costau gweithwyr a cherbydau.
- i) Mae'r llwybrau a ddewisir yn seiliedig i raddau helaeth ar argaeledd llwybrau eraill addas, a/neu ffactorau lliniaru rhesymol eraill. Fel y nodwyd yn 4a) uchod – pan fod eira, bydd y Cyngor yn trin y ffyrdd hyn yn yr un modd ag y maent yn cael eu trin rŵan, h.y. nes bod eira a rhew wedi ei glirio oddi arnynt. Er mwyn eglurder; mae'r gostyngiadau arfaethedig hyn yn berthnasol i raeau rhagofalus yn unig.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Cynlluniwyd proses Rhyddid a Hyblygrwydd y Cyngor i sicrhau'r arbedion angenrheidiol mewn ffordd sy'n lleihau'r effaith ar flaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd y newidiadau yn creu arbediad net arferol o tua £60,000 y flwyddyn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

Mae'r effeithiau tebygol ar yrwyr cerbydau yn unig. Ni ystyrir ei bod yn debygol y bydd unrhyw effaith anghymesur ar unrhyw grwpiau â nodweddion a ddiogelir. Gweler Atodiad 2.

8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn hefyd yn cael eu rhannu gyda phob un o'r Grwpiau Ardal yr Aelodau perthnasol

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Heb ei geisio. (mae'r penderfyniad sylfaenol wedi'i wneud eisoes, fel rhan o'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd).

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- a) Risg o anfodlonrwydd gan y cyhoedd am y gostyngiad mewn lefelau gwasanaeth (gweler 4g uchod ar gyfer camau lliniaru).
- b) Cynnydd ymylol yn y risg o ddamweiniau ar y gyfran o'n ffyrdd na fydd yn cael eu trin mewn amodau rhewllyd (gweler 4g a'r nodiadau yn Atodiad 1 ar gyfer camau lliniaru).
- c) Os *nad* yw'r gostyngiadau arfaethedig yn cael eu cyflawni, mae risg o *gynnydd* mewn gwariant, gan y gallai fod angen llwybr ychwanegol yn y gogledd.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Erthygl 6.3.3 Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi grymoedd Archwilio o ran datblygu ac adolygu polisi.

Swyddog Cyswllt:

Rheolwr Rhwydwaith

Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol

Ffôn: 01824 706875

Ffôn: 01824 706801

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Schedules of changes & comments

The 2014/15 amendments were as follows:-

A Meifod, Saron (1.40 km)

This route had been undertaken for a number of years but essentially only served one farm and a couple of houses.

B Galltegf, Llanfwrog (0.65)

This route has been undertaken for a few years following a request by the local Member. The road serves a number of properties but is a steep hill leading on to a junction with a major road. To mitigate this we have installed some salt heaps and a salt bin.

C Erw Fawr, Ruthin (0.8)

Removing this through route raised a lot of complaints however the road is fairly level and the nature of it is no different to many other unsalted urban roads throughout the county.

Proposed changes (reductions) for 2015/16 are:

1 Fforddisa, Prestatyn (1.22)

A level urban road that runs close to a number of schools in the area.

2 Bryniau, Meliden (1.75)

A rural link road with some steep sections. Note that half of this length is within Flintshire and we salt it on their behalf (a not uncommon practice)

3 Bryn Cwnin, Rhyl (1.70)

An important but level through route around Rhyl

4 Pedyffryn Road and Grosvenor Ave., Rhyl (0.5 + 0.42)

Level urban link roads close to schools

5 Ffordd Derwen, Rhyl (1.31)

An important but level through route around Rhyl

6 Ty Hwch Road, Cwm (2.80)

A fairly level, little used rural link road with a suitably close alternative route

7 Farmers Arms Road, Waen (2.60)

A fairly level, but well used, rural link road to the A55 but with a suitably close alternative route.

8 Thatched Cottage Road, Trefnant (1.00)

A fairly level, little used rural link road with a suitably close alternative route

9 Pont y Cambwll Road (linking Tremeirchion to Denbigh Green) (4.70).

A rural link road with some steep sections though a suitable alternative is not too far away.

10 The Nantglyn Road (4.70)

This is the most level of the roads serving the village and we would ensure that the other viable routes in the vicinity are adequately treated.

11 Llandyrnog to Llanbedr plus the link from Hendrerwydd to Llangynhafal (9.89)

This is a fairly level rural link route. At the Llanbedr end it does serve the school but local arrangements can be made to salt the short section up to the school from the adjacent B5429 through route.

12 Llanynys to Rhewl (2.14)

This route was only introduced in 2014/15 following both a history of requests for it to be done and our own operational advantage in doing so as it made it easy for us when returning to the depot. The road is level but susceptible to frost.

13 Graigfechan to Gatehouse Lodge (4.09)

This is a steep rural link road that is quite well used but runs almost parallel to the nearby Nant y Garth Pass.

14 Graianrhyd to the A5104 (2.24)

This is a well-used and winding road that slopes but is close to a gritted alternative route. Again almost half of this route lies within Flintshire.

FOR PLANS SHOWING EACH OF THE ABOVE SECTIONS OF ROAD – TOGETHER WITH ALTERNATIVE ROUTES – PLEASE SEE SEPARATE APPENDICES

Appendix 2

Reduction in length of Denbighshire's roads that will be treated with salt (precautionary salting only)

Equality Impact Assessment

Denbighshire's Performance on Flytipping Issues

Contact: S.Parker, Head of Service

Updated: 09/04/2015

1. What type of proposal is being assessed?

A service review or re-organisation proposal

2. Please describe the purpose of this proposal

To save money by reducing the proportion of Denbighshire's roads that receive precautionary salting in freezing conditions.

3. Does this proposal require a full equality impact assessment?
(Please refer to section 1 in the toolkit above for guidance)

No

The change in policy will only affect drivers of vehicles. As such there is unlikely to be any disproportionate impact on any of the groups with protected characteristics.

